



Nodyn Cyfarfod Rhagarweiniol

Cais: Fferm Wynt Alltraeth Awel y Môr

Cyfeirnod: EN010112

Amser a dyddiad: 20 Medi 2022, 10:00 am

Lleoliad: Digwyddiad rhithwir (Microsoft Teams) a'r Ystafell Stiwdio, Venue Cymru, Promenâd, Llandudno LL30 1BB

Nid yw'r nodyn cyfarfod hwn yn drawsgrifiad llawn o'r Cyfarfod Rhagarweiniol. Crynodeb ydyw o'r pwyntiau allweddol a drafodwyd.

1. Croeso a Chyflwyniad

Croesawodd Jonathan Hockley (JH) y rhai a oedd yn bresennol ac fe'i cyflwynodd ei hun fel aelod arweiniol y Panel o Arolygwyr Archwilio sy'n ffurfio'r Awdurdod Archwilio (ExA). Cyflwynodd Alex Hutson, Richard Morgan, Helen Cassini a Jason Rowlands eu hunain fel aelodau o'r panel. Bydd y panel yn archwilio cais Fferm Wynt Alltraeth Awel y Môr.

Esboniodd JH fod y penodiad wedi cael ei wneud trwy ddirprwyaeth gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau ar 24 Mai 2022.

Esboniodd JH y byddai'r ExA yn archwilio'r cais a wnaed gan Awel y Môr Offshore Wind Farm Limited ('yr Ymgeisydd') cyn gwneud argymhelliad i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol, a fydd yn penderfynu p'un a ddylid gwneud Gorchymyn yn rhoi Caniatâd Datblygu ar gyfer y prosiect arfaethedig, sy'n Brosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol (NSIP).

Esboniodd JH ddiben y Cyfarfod Rhagarweiniol a dywedodd y bydd yr Archwiliad yn dechrau ar ôl i'r Cyfarfod orffen.

Cadarnhaodd yr ExA y bydd yr holl ddogfennau a chyflwyniadau a geir ac a dderbynnir yn ystod yr Archwiliad yn cael eu cyhoeddi ar dudalen benodol y prosiect ar y wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol.

2. Recordiad sain

Mae'r recordiad sain llawn o'r PM hwn ar gael ar y wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol a gellir cael ato [yma](#).

3. Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data

Esboniodd yr ExA ddyletswyddau'r Arolygiaeth Gynllunio o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR).

Mae rhagor o wybodaeth yn ymwneud â'r GDPR ar gael yn [Hysbysiad Preifatrwydd](#) yr Arolygiaeth Gynllunio.

4. Y Broses Archwilio

Rhoddodd yr ExA esboniad byr o'r broses archwilio o dan Ddeddf Cynllunio 2008 (PA2008). Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn [Nodyn Cyngor 8.4](#)

5. Asesiad Cychwynnol o'r Prif Faterion

Esboniodd yr ExA ddiben yr Asesiad Cychwynnol o'r Prif Faterion (IAPI) (adran 88 Deddf Cynllunio 2008), sydd ar gael yn [Atodiad C](#) y llythyr [Rheol 6](#) dyddiedig 23 Awst 2022, a gofynnodd am unrhyw arsylwadau arnynt.

O ran IAPI pwynt 2 (Bioamrywiaeth, Ecoleg a'r Amgylchedd Naturiol), dywedodd yr Ymgeisydd nad yw enillion bioamrywiaeth net yn cael eu cydnabod yr un ffordd yng Nghymru ag yn Lloegr. Dylid eu nodi fel buddion bioamrywiaeth.

O ran amryw is-adrannau IAPI pwyntiau 4 (Adeiladu) a 6 (Perygl Llifogydd ac Ansawdd Dŵr), dywedodd yr Ymgeisydd nad oedd yn ymwybodol eu bod yn faterion a godwyd fel achos pryder.

O ran is-adran 'Buddion Cymunedol' IAPI pwynt 17 (Materion Economaidd-Gymdeithasol), roedd yr Ymgeisydd o'r farn bod hynny'n derbyn sylw y tu allan i'r broses Gorchymyn Caniatâd Datblygu (DCO) gan na all fod yn rhan o'r broses DCO yn gyfreithiol. Dywedodd yr Ymgeisydd y bydd yn rhoi diweddariad ar gynnydd wrth iddo fynd rhagddo.

Nododd yr ExA yr holl sylwadau a wnaed.

6. Amserlen yr Archwiliad

Nododd yr ExA y cais gan yr Ymgeisydd, a gafwyd yn ysgrifenedig eisoes, i ddiwygio Amserlen ddrafft yr Archwiliad a gynhwyswyd yn [Atodiad D](#) y llythyr Rheol 6 a chroesawodd awgrymiadau ychwanegol gan y partion a oedd yn bresennol.

Nodwyd yr holl sylwadau a wnaed yn briodol gan yr ExA a bydd ystyriaethau'n cael eu hadlewyrchu yn y llythyr Rheol 8.

Mae Amserlen yr Archwiliad i'w gweld yn y llythyr Rheol 8 sydd i'w gyhoeddi ar 27 Medi 2022.

7. Gwrandawiadau ac Archwiliadau Safle

Eglurodd yr ExA ddiben:

- Gwrandawiadau Penodol i Bwnc
- Gwrandawiadau Caffael Gorfodol
- Gwrandawiadau Llawr Agored
- Archwiliadau Safle gyda Chwmni
- Archwiliadau Safle Digwmni

Ceisiodd yr ExA sylwadau ar y trefniadau ar gyfer y digwyddiadau uchod. Nodwyd y rhain yn briodol ac fe'u hystyriwyd gan yr ExA.

Mae rhagor o wybodaeth yn ymwneud â gwrandawiadau ac archwiliadau safle ar gael yn ein [Nodyn Cyngor 8.5](#)

8. Penderfyniadau gweithdrefnol

Eglurodd yr ExA y penderfyniadau gweithdrefnol a wnaed o dan adran 89(3) PA2008 a gofynnodd am unrhyw arsylwadau.

Mae penderfyniadau gweithdrefnol i'w gweld yn [Atodiad H](#) y Llythyr Rheol 6.

Dywedodd yr ExA fod y pynciau ar gyfer Datganiadau Tir Cyffredin (SoCG) wedi'u hamlinellu yn [Atodiad H](#) y Llythyr Rheol 6.

Esboniodd yr Ymgeisydd ei fod yn blaenoriaethu SoCG gydag Awdurdodau Lleol (ALLau) a'i fod wrthi'n negodi cytundebau gyda phartion eraill. Mewn rhai achosion, mae'n bosibl na fydd angen SoCG, ac felly fe allai datganiadau sefyllfa cytunedig gael eu cyflwyno yn lle hynny. Dywedodd yr Ymgeisydd nad yw tîm trwyddedu morol Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) eisiau SoCG ar hyn o bryd, ond bydd yn ailgadarnhau ei safbwynt. Cadarnhaodd yr Ymgeisydd y bydd yn darparu olrheiniwr SoCG erbyn pob terfyn amser.

Esboniodd yr Ymgeisydd nad yw'n ddefnyddiol cyflwyno SoCG erbyn terfyn amser 1 yn gyffredinol, oni chytunwyd â'r parti perthnasol y gellir gwneud hyn, gan fod trafodaethau ar yr adeg hon yn gallu bod yn sensitif. Roedd yr ALLau a oedd yn bresennol yn cytuno.

Dywedodd Cyngor Sir Ynys Môn (IoACC) y bydd SoCG ar y cyd rhwng grŵp Swyddogion Cynllunio perthnasol Gogledd Cymru (IoACC, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Gwynedd, a Pharc Cenedlaethol Eryri) ar faterion tirwedd a morlun. Bydd SoCG ar wahân ar faterion eraill, lle y bo'n berthnasol.

Dywedodd yr ExA ei fod wedi derbyn Cyflwyniadau Ychwanegol a'u bod wedi cael eu cyhoeddi ar [dudalen we'r prosiect](#).

Gofynnodd yr ExA i'r Ymgeisydd ddarparu olrheiniwr Datganiad Polisi Cenedlaethol (NPS) cynhwysfawr ar gyfer NPSs EN1, EN3 ac EN5, i'w gyflwyno erbyn pob terfyn amser, fel y nodwyd. Cadarnhaodd yr Ymgeisydd y bydd yn ei ddarparu erbyn Terfyn Amser 1 ac ar ddiwedd yr archwiliad, ond y bydd yn cyflwyno diweddariad dim ond os oes newidiadau ar adeg pob terfyn amser.

Gofynnodd yr ExA i'r Ymgeisydd ddarparu diweddariad ar y Drwydded Forol erbyn Terfyn Amser 1 a therfynau amser dilynol os oes angen, lle y bo'n berthnasol, a darparu diweddariad terfynol erbyn y Terfyn Amser olaf. Esboniodd yr Ymgeisydd y bu'n gweithio'n agos gyda thîm trwyddedu CNC i benderfynu sut y gellir alinio'r prosesau ar wahân.

Dywedodd yr ExA fod adran 5 [Atodiad H](#) yn amlinellu ceisiadau ar gyfer Adroddiadau ar yr Effaith Leol (LIR).

Awgrymodd yr Ymgeisydd, yn lle diweddarau'r LIR erbyn y terfyn amser olaf, y gallai fod yn fwy defnyddiol i ALLau wneud sylwadau ar yr LIR o ran materion a ddatryswyd ac ati.

Dywedodd Cyngor Conwy nad oedd yn disgwyl cyflwyno LIR ar wahân, ond yn hytrach y bydd yn dibynnu ar Sylwadau Ysgrifenedig a SoCG. Dywedodd Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd hefyd nad oeddent yn bwriadu paratoi LIR ysgrifenedig.

Daeth y cyfarfod rhagarweiniol i ben am 11:40 am.